

Diarhebion 31:10-31

Y WRAIG FEDRUS

Daw'r llyfr i ben drwy ganu molawd hyfryd i'r wraig fedrus a'i dylanwad llesol ar ei theulu a'i chymuned. Nid yw'r Beibl yn unman yn difrïo merched; yma caiff gwraig barch a chlod hollol deilwng.

Diwydrwydd

Caiff diwydrwydd diffino'r wraig fedrus sylw arbennig yn adnodau 13-19. Nid yw'n ofni gwaith caled (17), ac 'Nid yw'n bwyta bara segurddod' (27). Mae'n brysur ar ei haelwyd ei hun, ond hefyd yn ymgymryd â gwaith ychwanegol er mwyn gwneud elw priodol y gall ei ddefnyddio er lles i'w theulu (18, 24). Mae'r llyfr hwn wedi cyfeirio'n ddigon aml at y diogyn (e.e. 6:6-11; 26:13-16); cwbl wahanol yw'r wraig hon. Mae geiriau olaf y llyfr yn briodol iawn, felly: 'Rhowch iddi o ffrwyth ei dwylo, a bydded i'w gwaith ei chanmol yn y pyrth' (31).

Daioni

Ond nid diwydrwydd difeddwl a digyfeiriad mo hyn. Er nad yw'r wraig yn esgeuluso ei hurddas na'i hanghenion personol (22), ceisio lles eraill yw ei nod pennaf.

Yn gyntaf, mae am wneud daioni i'w gŵr (12), gan fod yn goron iddo (12:4). Oherwydd ei llwyddiant yn hyn o beth, caiff ei gŵr ei barchu gan arweinwyr cymdeithas (23). Nid oes rhyfedd, felly, fod ei gŵr yn ymddiried yn llawen ynddi (11) ac yn ei chanmol yn ei hwyneb (28-29). Yn ail, mae am wneud daioni i'w phlant a'i theulu (15, 21, 27). Gwylia drostynt, gan ddarparu'n dda ar eu cyfer, ac maent yn barod iawn i gydnabod eu dyled iddi (28).

Yn drydydd, mae am wneud daioni i eraill yn gyffredinol, yn enwedig yr anghenus a'r tlawd (20). Mae pawb yn falch o'i gweld oherwydd ei hagwedd siriol a chadarnhaol (25), ac yn barod i wrando arni oherwydd ei geiriau doeth a charedig (26).

Duwioldeb

Ei duwioldeb yw sylfaen ei bywyd a'i gweithgarwch. Dyma 'wraig sy'n ofni'r Arglwydd' (30) yn bennaf oll. Nid yw prydferthwch allanol yn cyfrif rhyw lawer gyda hi; yr hyn sydd o bwys iddi, yn hytrach, yw anrhydeddu Duw ym mhob rhan o'i bywyd. Ni ellir gwell diweddglo i'r llyfr.